
# Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Beth yw'ch barn?

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mai 2012



Ymgynghoriad anstatudol gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn annog trafodaeth cyn cyflwyno'n ffurfiol Safonau fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# Cefndir

1

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod Safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

**Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

# Cynnwys




| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair | 03 |
| **1** | Cyflwyniad | 05 |
| **2** | Ymgynghoriad ar Safonau | 06 |
| | Pwrpas ac ystod yr ymgynghoriad | 06 |
| | Ystod y cyfnod ymgynghorol | 06 |
| | Sut i ymateb i'r ymgynghoriad | 06 |
| | Hygyrchedd | 06 |
| | Preifatrwydd | 07 |
| | Canlyniad yr ymgynghoriad | 07 |
| **3** | Model arfaethedig ar gyfer cyflwyno Safonau | 08 |
| | Safonau | 08 |
| | Gweithgareddau | 08 |
| | Trefniadau cydymffurfio | 08 |
| **4** | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 09 |
| | Beth yw Safonau Cyflenwi Gwasanaethau? | 09 |
| | Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau? | 09 |
| | Beth yw'r gofynion? | 09 |
| **5** | Safonau Llunio Polisi | 14 |
| | Beth yw Safonau Llunio Polisi? | 14 |
| | Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Llunio Polisi? | 15 |
| | Beth yw'r gofynion? | 15 |
| **6** | Safonau Gweithredu | 19 |
| | Beth yw Safonau Gweithredu? | 19 |
| | Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Gweithredu? | 19 |
| | Beth yw'r gofynion? | 20 |
| **7** | Safonau Hybu | 23 |
| | Beth yw Safonau Hybu? | 23 |
| | Pwy sy'n gorfod gweithredu Safonau Hybu? | 23 |
| | Beth yw'r gofynion? | 23 |
| **8** | Safonau Cadw Cofnodion | 25 |
| | Beth yw Safonau Cadw Cofnodion? | 25 |
| | Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Cadw Cofnodion? | 25 |
| | Beth yw'r gofynion? | 25 |

# Rhagair



Fel Comisiynydd y Gymraeg, rwy'n falch o estyn gwahoddiad i bawb ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Safonau drafft o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'n ofynnol o dan y Mesur i gynnal ymgynghoriad ar Safonau drafft cyn eu cyflwyno i sylw Gweinidogion Cymru. Er hyn, o gofio pwysigrwydd yr hyn y mae angen ei gyflawni o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, mae ymgynghori'n eang yn rhywbeth rwy'n awyddus iawn i'w wneud.

Rwy'n croesawu pob sylw a gyflwynir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rwy'n awyddus bod yr ymarferiad hwn yn ein galluogi i adnabod Safonau a fydd, o'u mabwysiadu, yn llwyddo fel erfyn statudol i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chryfhau lle'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.

Bydd rhai o'r cynigion ymysg papurau'r ymgynghoriad yn ymddangos yn heriol i rai. Nid yw'n fwriad gofyn i unrhyw berson ymgymryd ag ymrwymiadau diangen ond rhaid wrth yr ewyllys i weithredu'n well a mynd ymhellach nag yr aed cyn hyn os ydym am gyrraedd ein nod. Rhaid arwain y ffordd wrth fynd rhagddi i bennu Safonau eglur, a chyson: Safonau a fydd yn dileu ansicrwydd ym meddyliau pobl ynghylch y cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn hanfodol gan ei fod yn rhoi cyfle llawn i bawb—y dinesydd yn arbennig—i ddatgan beth yw eu gofynion ac ym mha ffordd y gall Safonau oresgyn yr anawsterau a wynebir.

Hoffwn hefyd annog awdurdodau cyhoeddus i fachu ar y cyfle i gyfrannu gan eu bod yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol ac yn brofiadol, yn arbennig mewn cyd-destun gweinyddol, yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau dwyieithog. Maent yn ymwybodol o'r gofynion ymarferol sydd ynghlwm wrth y gwaith. Maent hefyd yn gyfarwydd ag ymateb i gwynion gan y cyhoedd ac, o ganlyniad, yn abl i gyfrannu gwybodaeth ynghylch y meysydd y gall Safonau gyfrannu at eu gwella. Mae ganddynt gyfraniad deublyg i'w wneud yn yr ymgynghoriad felly.

Dylid nodi mai trwy gydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unig y gellir gosod Safonau ar gyrff y Goron. Mae llawer o'r gwasanaethau a dderbynia'r cyhoedd yng Nghymru yn rhai nas datganolwyd. Adeg cynnal yr ymgynghoriad hwn rhaid deall y cyfyngiadau sydd arnaf fel Comisiynydd y Gymraeg i ddod â chyrff y Goron o dan gwmpas y Safonau. Rwyf am wneud fy safbwynt yn glir: credaf y dylai Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod modd i unrhyw un yng Nghymru sy'n dymuno gwneud hynny gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU.

Heb amheuaeth bydd gan fudiadau sy'n hybu'r Gymraeg ddiddordeb yn y drafodaeth. Mae'r mudiadau hyn wedi cymryd diddordeb mewn datblygiadau deddfwriaethol ym maes y Gymraeg ers degawdau a mawr obeithiaf y bydd hynny'n wir drachefn.

Nid wyf am ail agor trafodaeth ynghylch cwmpas y Mesur ei hun yn ystod yr ymgynghoriad hwn; serch hynny rwy'n awyddus i glywed barn cwmnïau preifat a sefydliadau'r trydydd sector ar y Safonau a gynigir ac yn awyddus i gael gwybod am berthnasedd y Safonau i'w hamgylchiadau. Gwyddom yn iawn nad oes modd i'r Safonau ddal pob cwmni preifat a holl sefydliadau'r trydydd sector. Lle na fydd Safonau'n gymwys byddaf yn rhoi cyngor i gwmnïau preifat a sefydliadau gwirfoddol fel ei gilydd i symud yn nes at arfer dwyieithrwydd. Rwy'n disgwyl i bawb, ymhob sector, ddangos parch i'r ffaith bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.



Rwy'n hynod awyddus i glywed gan bobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad hwn a bwriadaf wneud ymdrech arbennig i ddwyn grwpiau ynghyd er mwyn trafod â hwy i lawn adnabod eu hanghenion.

Wrth ystyried a chynnig argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trywydd i'w ddilyn rhaid i mi bwyso a mesur pob ymateb gaiff ei gyflwyno i'r ymgynghoriad hwn mewn modd gwrthrychol. Er fy mod wedi dwyn sylw at rai rhanddeiliaid allweddol yn fy nghyflwyniad mae'r ymgynghoriad hwn yn fodd o estyn allan at bawb sydd am fynegi barn gyda golwg ar sefydlu perthynas adeiladol wrth wneud hynny. Apeliaf arnoch i ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gnoi cil ar yr hyn sy'n iawn ac yn rhesymol i'w gyflawni drwy Safonau yng nghyd-destun cyfreithiol Cymru.

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

# 1
# Cyflwyniad



Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â Safonau statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Byddant yn nodi sut mae disgwyl i sefydliadau drin a defnyddio'r Gymraeg. Bwriad y Safonau yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hynny yn gyson. Bydd Safonau'n un modd a gaiff ei ddefnyddio er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi Safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ran 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Caiff Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â Safonau.

Bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg reoleiddio sefydliadau'n gadarn ac yn gyson drwy Safonau, a chaiff benderfynu gosod cosb sifil ar sefydliad os na fydd yn cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

# 2
# Ymgynghoriad ar Safonau



## Pwrpas ac ystod yr ymgynghoriad

2.1 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn ar Safonau drafft yw rhoi cyfle i unrhyw un fynegi barn ar y Safonau a'r hyn sydd i'w gyflawni drwy gyfrwng Safonau. Mae'r Comisiynydd yn awyddus i dderbyn sylwadau a barn gan sefydliadau a'r cyhoedd ar y Safonau drafft.

## Ystod y cyfnod ymgynghorol

2.2 Dyddiad dechrau'r cyfnod ymgynghorol hwn yw 16 Mai 2012.

2.3 Dyddiad cau'r cyfnod ymgynghorol hwn yw 11 Awst 2012.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

2.4 Croesewir pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Gweler y ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon. Nodir naw cwestiwn i'w hateb ac mae croeso i ymatebwyr nodi sylwadau ychwanegol hefyd.

2.5 **Bydd modd cyflwyno sylwadau fel a ganlyn:**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

ymgynghoriad@comisiynyddygymraeg.org
comisiynyddygymraeg.org

## Hygyrchedd

2.6 Mae gan y Comisiynydd bolisi iaith sy'n cyfeirio at iaith cyhoeddiadau a dogfennau y bydd yn eu cyhoeddi. Bydd y ddogfen ymgynghorol hon yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg.

**Gellir gwneud cais i'r Comisiynydd am y ddogfennaeth mewn fformatau eraill, er enghraifft copi print bras**

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org

### Preifatrwydd

2.7 Yn dilyn cau'r ymgynghoriad bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r holl ymatebion a dderbyniwyd. Gall yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei gwneud yn wybyddus, hyn yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fe allai gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

2.8 Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid cadw ato. Ymysg pethau eraill, mae'r Cod hwn yn delio ag ymrwymiadau o ran cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro'n fyr pam rydych am i'r wybodaeth a roesoch fod yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn eich sicrhau y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

2.9 Dylid nodi y bydd ymatebion dienw, boed ar ffurf copi caled neu oddi wrth gyfeiriad ebost dienw, yn derbyn yr un sylw â'r ymatebion eraill.

2.10 Ni fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi unrhyw ymatebion maleisus neu sarhaus.

### Canlyniad yr ymgynghoriad

2.11 Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi dogfen yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn yn yr hydref. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiynydd a gellir gwneud cais am gopi caled ohoni.

# 3
# Model arfaethedig ar gyfer cyflwyno Safonau



Yn adrannau 4–8 o'r ddogfen ymgynghorol hon fe geir cynigion yn ymwneud â chyflwyno Safonau. Ac eithrio adran 8, mae tair rhan i'r model sef rhan yn ymwneud â'r Safonau eu hunain, is-adran o weithgareddau (neu feysydd) sy'n gysylltiedig â'r Safonau ac yn olaf, trefniadau cydymffurfio.

**Safonau**
Ym mhob adran mae'r Safonau a gynigir yn y model arfaethedig yn Safonau lefel uchel ac yn ymwneud ag egwyddorion. Credwn eu bod yn eglur ac yn absoliwt, yn gyson ac yn barhaol.

**Gweithgareddau**
Yn adrannau 4–8 cynigir rhestr o weithgareddau (neu feysydd) ochr yn ochr â'r Safonau. Bydd yn rhaid i sefydliad sicrhau bod pob gweithgaredd a restrir, ac sy'n cael eu harfer ganddynt fel rhan o'u swyddogaethau arferol, yn cydymffurfio â phob safon. Yn y lle cyntaf, y sefydliad fydd yn penderfynu hynny (yn unol â chanllawiau a ddarperir gan y Comisiynydd). Ar ôl derbyn strategaeth, ac os bydd y Comisiynydd yn anghytuno â'r dehongliad, fe fydd modd ymchwilio i'r mater o dan Adran 61 neu 71 y Mesur.

**Trefniadau cydymffurfio**
Yn adrannau 4–8 cyflwynir model posibl o drefniadau cydymffurfio. Yn y model a gynigir arfaethir defnyddio adran 27(4) y Mesur i hwyluso hynny a sicrhau y cydymffurfir â Safonau.

**Safonau**
- Eglur
- Absoliwt
- Cyson
- Parhaol

→

**Gweithgareddau**
- Perthnasol
- Modd Ymestyn
- Cyfnewiidol

→

**Cynllun Cydymffurfio**
- Rhesymol
- Cymesur
- Deinamig

# 4
# Safonau Cyflenwi Gwasanaethau



**Beth yw Safonau Cyflenwi Gwasanaethau?**
**Diffiniad adran 28, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
'(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon —

(a) sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, a
(b) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw.

(2) Yn yr adran hon ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw —

(a) cyflenwi gwasanaethau gan berson i berson arall, neu
(b) delio gan berson ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau —
    (i) i'r person arall hwnnw, neu
    (ii) i drydydd person.'

**Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau?**

i. Unrhyw rai sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol neu drwy gytundeb, neu drwy drefniadau eraill neu sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol
ii. Rheoleiddwyr
iii. Darparwyr tai cymdeithasol
iv. Cyfran o'r sector preifat gan gynnwys cwmnïau nwy, dŵr neu drydan; cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau post neu swyddfeydd post; cwmnïau telathrebu; bysiau neu wasanaethau rheilffyrdd
v. Darparwyr addysg a hyfforddiant gan gynnwys y rhai sy'n annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd a'r rhai hynny sy'n dyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol
vi. Unrhyw un sy'n dewis cydymffurfio â Safonau

**Beth yw'r gofynion?**
Rhaid hybu a hwyluso'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ohebu; wrth ddelio â galwadau ffôn; wrth ddarparu llinellau cymorth a chanolfannau galwadau; mewn cyfarfodydd personol a chyfarfodydd cyhoeddus; wrth ymgymryd â chyhoeddusrwydd a hysbysebu; mewn arddangosfeydd cyhoeddus; wrth baratoi cyhoeddiadau, ffurflenni, gwefannau a gwasanaethau ar-lein ac arwyddion; wrth dderbyn ymwelwyr; mewn hysbysiadau swyddogol; wrth ddyfarnu grantiau a chontractau ac wrth godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

Dylid nodi bod modd diwygio ac ychwanegu i'r rhestr o weithgareddau a nodir yma drwy gyfrwng rheoliadau o dan adran 39. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 9 drwy ychwanegu, hepgor neu ddiwygio cyfeiriad at weithgaredd.

**Y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

Yn y Safonau hyn ystyr "gwasanaeth" yw unrhyw wasanaeth, nwyddau neu waith y mae'r sefydliad yn ei ddarparu yn uniongyrchol i, ac/neu ar ran, ac/neu er budd person, personau neu sefydliad arall. Pan gyfeirir at berson, personau neu sefydliad yn unig yn y Safonau hyn dylid ystyried y cyfeirir at y cyfan ohonynt, oni nodir yn wahanol.



| Rhif | Safon |
|---|---|
| 1 | Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau. |
| 2 | Rhaid cyflenwi gwasanaethau yn ddwyieithog, os nad yw dewis iaith y person yn hysbys. |
| 3 | Rhaid bod yn rhagweithiol wrth ei gwneud yn amlwg i ddefnyddwyr gwasanaethau bod croeso iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg neu'n Saesneg a rhoi gwybod iddynt ymlaen llaw y gallant wneud hynny. |
| 4 | Rhaid canfod a chofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau cyn gynted â phosib, lle bo'n ymarferol a rhesymol gwneud hynny. Wrth ddarganfod dewis iaith rhaid sicrhau y cydymffurfir â phob deddfwriaeth data berthnasol. |
| 5 | Ar ôl darganfod a chofnodi fod defnyddiwr y gwasanaeth am ddewis defnyddio'r iaith Gymraeg, rhaid sicrhau, o'r dyddiad cofnod ymlaen, bod pob gwasanaeth y mae'r sefydliad yn ei ddarparu yn cael ei gyflenwi yn y Gymraeg i'r defnyddiwr hwnnw o'r cychwyn. |
| 6 | Rhaid gwneud trefniadau i ddiwallu gofynion darparu gwasanaethau i berson[au] neu sefydliad sydd wedi dewis defnyddio'r Gymraeg gan gynnwys amgylchiadau os nad yw aelod o staff yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg. |
| 7 | Rhaid parchu dewis iaith y sawl sy'n dewis cyfathrebu yn y Gymraeg a dylid ymdrin â hwy yn effeithiol ac yn gwrtais. |
| 8 | Rhaid i bob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu yn electronig) sy'n cyflenwi gwasanaethau, yn ymwneud â gwasanaethau neu sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau, fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 9 | Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ansawdd, eglurder nac amlygrwydd testun neu gyfathrebiad. |
| 10 | Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran amseroedd cyhoeddi testunau neu anfon cyfathrebiadau. |
| 11 | Pan gyhoeddir testun neu ddeunydd â phris arno, ni chaiff pris y fersiwn Cymraeg fod yn uwch na phris y fersiwn Saesneg, ac ni chaiff pris fersiwn dwyieithog fod yn uwch na phris fersiwn uniaith. |
| 12 | Pan godir tâl am ddefnyddio gwasanaeth, ni chaiff pris y gwasanaeth Cymraeg fod yn uwch na phris y gwasanaeth Saesneg. |

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 13 | Rhaid cynnwys amodau mewn unrhyw gontractau neu gytundebau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, neu sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau, er mwyn rhwymo'r trydydd parti i'r contract i bob safon cyflenwi gwasanaethau perthnasol. Dylid hefyd sicrhau na chaiff y canlyniad fod yn llai ffafriol i ddefnyddwyr gwasanaeth na'r hyn y gellid bod wedi ei ddisgwyl pe byddai'r gwasanaeth wedi ei gyflenwi'n uniongyrchol gan sefydliad cydsyniol. |
| 14 | Cyn dyfarnu contract gwasanaeth i drydydd parti, wrth osod y contract ac wrth fonitro'r contract, rhaid sicrhau gallu'r trydydd parti i gydymffurfio ag unrhyw Safonau Cyflenwi Gwasanaethau perthnasol. |
| 15 | Wrth ddyrannu grantiau, benthyciadau neu nawdd i drydydd parti, a chyn ac yn sgil eu dyfarnu, rhaid sicrhau gallu'r trydydd parti i gydymffurfio ag unrhyw Safonau Cyflenwi Gwasanaethau perthnasol. |
| 16 | Rhaid codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg a ddarperir a chymryd pob cam rhesymol i wneud hynny. |
| 17 | Rhaid i ansawdd a lefel cydymffurfiaeth y sefydliad a thrydydd partïon â phob safon cyflenwi gwasanaethau berthnasol gael eu monitro gan y sefydliad ei hun a/neu gan drydydd parti ar ei ran. |

**Gweithgareddau perthnasol**
Rhaid i bob gweithgaredd gydymffurfio â phob safon uchod cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol i'r gweithgaredd dan sylw.

i. Gohebu
ii. Galwadau ffôn
iii. Llinellau cymorth a chanolfannau galwadau
iv. Cyfarfodydd personol
v. Cyfarfodydd cyhoeddus
vi. Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
vii. Arddangosfeydd cyhoeddus
viii. Cyhoeddiadau
ix. Ffurflenni
x. Gwefannau a gwasanaethau ar-lein a chyfathrebu electronig o bob math
xi. Arwyddion
xii. Derbyn ymwelwyr
xiii. Hysbysiadau swyddogol
xiv. Dyfarnu grantiau
xv. Dyfarnu contractau
xvi. Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
xvii. Gofalu am unigolion (meddygol a/neu anfeddygol)
xviii. Gwarchodaeth unigolion
xix. Cyfarfod o fewn amgylchedd cyfreithiol gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) llys, tribiwnlys ac ymchwiliad
xx. Cyfleusterau cyfieithu
xxi. Trefniadau diwallu'r angen am wasanaeth
xxii. Cyfarfod at bwrpas addysgol gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) dosbarth, darlith, tiwtorial, grŵp trafod, gweithdy, sesiwn hyfforddiant a sesiwn codi ymwybyddiaeth
xxiii. Cyflunio gwasanaethau
xxiv. Gweithgareddau ieuenctid
xxv. Darpariaeth gwasanaeth wyneb yn wyneb
xxvi. Delwedd gyhoeddus
xxvii. Swyddogaethau rheolaethol a statudol
xxviii. Gweithio mewn partneriaeth

## Strategaeth Cydymffurfio

Rhaid i bob sefydliad sydd o dan ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau hefyd gydymffurfio â phob un o'r canlynol o fewn yr amserlen benodedig yn unol ag adran 27(4).

| Rhif | Strategaeth/Amserlen |
|---|---|
| 1 | Rhaid llunio strategaeth a/neu gynllun ar gyfer cydymffurfio â phob un o'r Safonau perthnasol a dylid ei/eu h/anfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 2 | Rhaid creu a dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod y sefydliad cyfan yn cydymffurfio â Safonau a dylid eu hanfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 3 | Rhaid casglu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol gan gynnwys:<br><br>i. nifer a chanran y defnyddwyr sy'n derbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg;<br>ii. nifer a chanran y cynnydd/lleihad ers yr adroddiad diwethaf;<br>iii. ansawdd y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg gan roi sylw i (i) amseriad, (ii) cysondeb gweithredu'r Safonau yn gyffredinol o fewn y sefydliad a (iii) phrofiad y defnyddiwr;<br>iv. unrhyw gwynion gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cyfeirio at anawsterau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg dros y cyfnod adrodd diwethaf;<br>v. unrhyw sylwadau perthnasol eraill.<br><br>Rhaid anfon yr wybodaeth uchod at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 4 | Rhaid casglu gwybodaeth am newidiadau gweithredol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys:<br><br>i. y camau penodol a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg;<br>ii. sut y mae staff wedi'u trefnu i ddarparu'r gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg;<br>iii. unrhyw newidiadau i'r modd o ddarparu'r gwasanaethau a wnaed neu a ragwelir o ganlyniad i unrhyw gamau codi ymwybyddiaeth ac, os yw hynny'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu;<br>iv. unrhyw gwynion gan staff yn cyfeirio at anawsterau wrth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau dros y cyfnod adrodd diwethaf;<br>v. unrhyw sylwadau perthnasol eraill.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |

| Rhif | Strategaeth/Amserlen |
|---|---|
| 5 | Rhaid anfon yr wybodaeth a gesglir o dan safon 17 uchod, yn ymwneud â monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth, at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 6 | Rhaid cyhoeddi rhestr o'r holl Safonau perthnasol a strategaeth cydymffurfio'r sefydliad a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'w gweld yn hwylus ac mewn modd agored i ddefnyddwyr y gwasanaethau.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |

# 5
# Safonau Llunio Polisi



**Beth yw Safonau Llunio Polisi?**
**Diffiniad Adran 29, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:**

'(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon llunio polisi" yw safon —

(a) sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, a
(b) y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau a ganlyn.

(2) Y cyntaf o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a ph'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael —

(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(3) Yr ail o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif —

(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(4) Y trydydd o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol —

(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(5) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol.

(6) Ystyr "penderfyniad polisi" yw penderfyniad gan berson —

(a) ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau, neu
(b) ynglŷn â chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.'

### Pwy sy'n gorfod gweithredu'r Safonau Llunio Polisi?

i. Unrhyw rai sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol neu drwy gytundeb, neu drwy drefniadau eraill neu sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol
ii. Rheoleiddwyr
iii. Darparwyr tai cymdeithasol
iv. Unrhyw un sy'n dewis cydymffurfio â Safonau

### Beth yw'r gofynion?

Sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau a ganlyn:

i. Ystyried pa effeithiau—positif, andwyol, neu ddim o gwbl—y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael (29(2))
ii. Ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif (29(3))
iii. Ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol (29(4)).

Rhaid sicrhau ystyriaeth i'r effaith ar "gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg" (29 (2-4)).

### Y Safonau Llunio Polisi

Yn y safon hon ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad gan berson ynglŷn ag arfer swyddogaethau, neu ynglŷn â chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.

Yn y safon hon mae cyfeiriad at "effeithiau positif" neu "effeithiau andwyol" yn cynnwys effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol.

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 1 | Wrth wneud neu ddiwygio penderfyniad polisi, rhaid ystyried pa effeithiau (positif neu andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 2 | Wrth wneud neu ddiwygio penderfyniad polisi, rhaid ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel y bo'n cael effaith bositif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu fel y bo'n golygu na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 3 | Wrth wneud neu ddiwygio penderfyniad polisi, rhaid ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg ac fel y bo'n golygu na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| 4 | Rhaid prif ffrydio'r Gymraeg wrth lunio polisïau gan ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg a lles y Gymraeg ymhob agwedd ar benderfyniadau polisi. Dylid gwneud hyn gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 5 | Rhaid sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys fel elfennau trawsbynciol perthnasol wrth ddatblygu polisïau perthnasol i holl gyfrifoldebau'r sefydliad. |
| 6 | Wrth ymgynghori yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi, dylid sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy yn gynrychioladol o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu wasanaethau perthnasol sy'n gallu siarad Cymraeg. Os yw ymgynghori yn gyfyngedig i sefydliadau dethol, dylid sicrhau bod sefydliadau cynllunio ieithyddol priodol yn rhan o'r broses. |
| 7 | Rhaid sicrhau bod strwythur a phroffil staffio unrhyw wasanaeth neu fenter newydd yn hwyluso darparu gwasanaethau a chyflawni gweithgareddau perthnasol yn y Gymraeg. |
| 8 | Er mwyn cael digon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i alluogi'r sefydliad i weithredu yn unol â Safonau penodedig rhaid hybu a hwyluso gweithlu dwyieithog trwy lunio polisïau addas, gan gynnwys (heb eithriad):<br><br>i. gweithredu mesurau recriwtio a dethol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi i swyddi ac iddynt ofynion ieithyddol penodol o safbwynt y Gymraeg;<br>ii. clustnodi'r swyddi hynny lle'r ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol a'r rhai yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar eu cyfer;<br>iii. cynllunio a chynnig hyfforddiant ieithyddol addas ac ôl-ofalaeth priodol i staff fel rhan o drefniadau datblygu corfforaethol y sefydliad er mwyn sicrhau lefelau sgiliau priodol;<br>iv. cynllunio a darparu hyfforddiant priodol i sicrhau bod gan reolwyr o fewn y sefydliad y cymwyseddau rheoli sydd eu hangen i weithio mewn sefydliad lle defnyddir dwy iaith. |
| 9 | Dylid cymryd pob cam rhesymol a phriodol i lunio neu i gryfhau polisïau a mentrau penodol sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a allai gynnwys:<br><br>i. cydweithio â mudiadau cymunedol a gwirfoddol i wneud defnydd o'r Gymraeg;<br>ii. annog cwmnïau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r sefydliad;<br>iii. gweithio â grwpiau targed penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;<br>iv. creu cysylltiad â mudiadau sydd â diddordeb yn y Gymraeg a phartneriaid eraill i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol;<br>v. edrych am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;<br>vi. codi ymwybyddiaeth a chynyddu cyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg. |
| 10 | Rhaid i bob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu yn electronig) sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 11 | Rhaid mabwysiadu a chyflwyno delwedd gorfforaethol ddwyieithog gyflawn, gan gynnwys enw, cyfeiriad, logo, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunyddiau a nwyddau. |

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 12 | Rhaid sicrhau bod trefniadau cyson ac addas mewn lle i asesu effaith a chanlyniadau penderfyniad polisi ar y Gymraeg cyn i'r penderfyniad gael ei wneud (ac wrth ddiwygio polisi) ac yn rheolaidd wrth i'r penderfyniad gael ei roi mewn grym. |
| 13 | Rhaid ystyried canlyniadau unrhyw asesiad o effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg (yn unol â safon 12) a chynnwys mesurau priodol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol neu i wella'r elfennau cadarnhaol. Wrth ystyried y canlyniadau a'r mesurau priodol, dylid cynnwys asesiad o bob ffactor allweddol, gan gynnwys (heb eithriad):<br><br>i. yr angen gwirioneddol (yn hytrach na'r galw sydd wedi'i bennu/y galw potensial);<br>ii. dull o gynllunio'r buddiannau a ddaw i'r Gymraeg yn y broses;<br>iii. lleoliad;<br>iv. amseriad. |
| 14 | Rhaid monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth y sefydliad, a/neu unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran, â phob safon llunio polisi. |



**Meysydd polisi penodol**
Rhaid i bob gweithgaredd gydymffurfio â phob safon uchod cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol i'r gweithgaredd dan sylw.

i. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd
ii. TG
iii. Cynllunio Adnoddau
iv. Cynllunio Cyllid
v. Iechyd
vi. Gofal Cymdeithasol a Lles
vii. Plant a Phobl Ifanc
viii. Cynllunio Datblygu
ix. Celf, Iaith a Diwylliant
x. Cynlluniau Grant
xi. Strwythur, ailstrwythuro ac adleoli
xii. Gwasanaethau ar y cyd a Chydlafurio
xiii. Hamdden ac Adfywio
xiv. Addysg
xv. Cynllunio risg ac argyfwng
xvi. Cludiant
xvii. Yr Amgylchedd a Gwastraff
xviii. Cyfreithiol, Corfforedig a Chaffael
xix. Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
xx. Delwedd Gorfforaethol, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
xxi. Trosedd, System Cosbi a Diogelwch Cymunedol
xxii. Archwilio a Sicrhau Ansawdd
xxiii. Marchnata a defnyddio data
xxiv. Rheoleiddio a Safonau
xxv. Datblygiad Economaidd
xxvi. Tai
xxvii. Twristiaeth
xxviii. Amaethyddiaeth

**Strategaeth Cydymffurfio**
Rhaid i bob sefydliad sydd o dan ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â Safonau Llunio Polisi hefyd gydymffurfio â phob un o'r canlynol o fewn yr amserlen benodedig, yn unol ag adran 27(4).

| Rhif | Strategaeth/Amserlen |
|---|---|
| 1 | Rhaid llunio strategaeth a/neu gynllun ar gyfer cydymffurfio â phob un o'r Safonau perthnasol a dylid ei/eu h/anfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 2 | Rhaid creu a dilyn gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau ar draws y sefydliad gan gynnwys (heb eithriad):<br><br>i. trefn ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i staff priodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau parthed prif ffrydio'r Gymraeg o fewn penderfyniadau polisi a dylid eu hanfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 3 | Rhaid casglu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol gan gynnwys:<br><br>i. nifer a chanran y personau sydd wedi cael budd ieithyddol Cymraeg oherwydd y penderfyniadau polisi;<br>ii. canran y cynnydd/lleihad ers yr adroddiad diwethaf;<br>iii. unrhyw gwynion gan berson yn cyfeirio at rwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg dros y cyfnod adrodd diwethaf;<br>iv. unrhyw sylwadau perthnasol eraill. Rhaid anfon yr wybodaeth uchod at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis |
| 4 | Rhaid casglu gwybodaeth am bolisïau a mentrau penodol newydd, neu sydd wedi'u haddasu, sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol, gan gynnwys:<br><br>i. y camau penodol a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r mentrau a'r cyfleoedd Cymraeg perthnasol;<br>ii. unrhyw newidiadau a wnaed neu a ragwelir o ganlyniad i unrhyw gamau a mentrau newydd ac, os yw hynny'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu;<br>iii. unrhyw sylwadau perthnasol eraill.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 5 | Rhaid anfon yr wybodaeth a gesglir o dan safon 14 uchod yn ymwneud â monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 6 | Rhaid cyhoeddi rhestr o'r holl Safonau perthnasol a strategaeth cydymffurfio'r sefydliad a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'w gweld yn hwylus ac mewn modd agored i ddefnyddwyr y gwasanaethau.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |

# 6
# Safonau Gweithredu



**Beth yw Safonau Gweithredu?**
**Diffiniad Adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

‘(1) Yn y Mesur hwn ystyr “safon gweithredu” yw safon —

(a) sy’n ymwneud â gweithgareddau perthnasol person (A), a
(b) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio’r Gymraeg —
  (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
  (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â’i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
  (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

(2) Yn yr adran hon —

(a) ystyr “gweithgareddau perthnasol” yw —
  (i) swyddogaethau, neu
  (ii) busnes neu ymgymeriad arall;
(b) mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau perthnasol yn gyfeiriad at —
  (i) arfer swyddogaethau, neu
  (ii) cynnal busnes neu ymgymeriad arall.’

**Pwy sy’n gorfod gweithredu’r Safonau Gweithredu?**

i. Unrhyw rai sy’n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol neu drwy gytundeb, neu drwy drefniadau eraill neu sy’n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol
ii. Rheoleiddwyr
iii. Darparwyr tai cymdeithasol
iv. Unrhyw un sy’n dewis cydymffurfio â Safonau

**Beth yw'r gofynion?**
Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â gweithgareddau mewnol sefydliad y mae'r Safonau Gweithredu. Ceir enghreifftiau niferus o ddeddfau sy'n gosod dyletswyddau mewn perthynas â defnydd iaith yn y gweithle yn cynnwys Deddf Ieithoedd Swyddogol Canada 1988; Deddf Polisi Ieithyddol Catalunya 1998; Siartr yr Iaith Ffrangeg 2002 (Quebec); Deddf Diogelu Inuit 2008.

Mae'r deddfau hyn yn darparu, ymysg pethau eraill, yr hawl i unigolion weithio drwy gyfrwng eu dewis iaith; dyletswydd ar lywodraethau a sefydliadau cyhoeddus i gynnal gweithdrefnau mewnol mewn un neu fwy o ieithoedd; dyletswydd ar sefydliadau i sicrhau y gall timoedd rheoli weinyddu mewn iaith neu ieithoedd penodol; dyletswydd ar sefydliadau i roi cynnig dewis iaith rhagweithiol i gyflogeion ar gychwyn cyfnod o gyflogaeth; dyletswydd ar sefydliadau i weithredu mesurau i gael gwared ar unrhyw rwystrau i ddefnyddio iaith leiafrifol.

Yng Nghymru, bydd disgwyl i'r mwyafrif o sefydliadau gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y sefydliad.

**Y Safonau Gweithredu**
Yn y safon hon ystyr "gweithgareddau perthnasol" yw swyddogaethau neu fusnes neu ymgymeriad arall gan sefydliad. Mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau perthnasol yn gyfeiriad at arfer swyddogaethau, neu gynnal busnes neu ymgymeriad arall.

Mae person (A) yn cynnwys cyfarwyddwyr, staff a chontractwyr y sefydliad neu unrhyw un arall sy'n ymgymryd â gweithgareddau perthnasol y sefydliad ac sydd o dan ei reolaeth.

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 1 | Rhaid i weithgareddau perthnasol person (A) allu cael eu cyflawni yn y Gymraeg, yn unol â dewis A —<br><br>i. gan A; a/neu<br>ii. gan A a pherson arall; a/neu<br>iii. gan berson heblaw am A sy'n ymgymryd â gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy. |
| 2 | Rhaid ei gwneud yn amlwg i A trwy roi hysbysiad ymlaen llaw, bod croeso iddo/iddi gyflawni gweithgareddau perthnasol yn y Gymraeg. |
| 3 | Rhaid darganfod a chofnodi dewis iaith A cyn gynted â phosib. Wrth ddarganfod y dewis iaith rhaid cymryd unrhyw gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau unrhyw gydsynio/hysbysiad sydd ei angen i gofnodi data. |
| 4 | Rhaid defnyddio'r cofnod o ddewis iaith A i alluogi A i gyflawni gweithgaredd perthnasol o'r cychwyn yn y Gymraeg os yw person A wedi dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o ddyddiad y cofnodi ymlaen. |
| 5 | Lle mae A yn cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg rhaid sicrhau bod yr un cyfleoedd a nodweddion ar gael iddo wneud hynny ag a fyddai wedi bod ar gael pe byddai wedi dewis cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Saesneg. |

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 6 | Lle mae A yn dewis cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid sicrhau bod isadeiledd mewn lle i gefnogi A i wneud hynny gan gynnwys cyfleusterau technoleg gwybodaeth, gwasanaethau canolog ac adnoddau dynol Cymraeg. |
| 7 | Rhaid parchu dewis iaith y sawl sy'n dewis cyfathrebu yn y Gymraeg a rhaid delio â hwy'n effeithiol ac yn gwrtais. |
| 8 | Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas ag amseroedd cyflawni ar gyfer ymateb i neu ymdrin â pherson (A) sy'n dewis cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na thrwy gyfrwng y Saesneg. |
| 9 | Rhaid i bob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu yn electronig), sy'n ymwneud â gweithgareddau perthnasol A, neu sy'n cynorthwyo A i gyflawni ei weithgareddau perthnasol, fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 10 | Rhaid cymryd camau cadarnhaol i gael gwared â rhwystrau sy'n atal A rhag cyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 11 | Rhaid codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r cyfleoedd perthnasol sydd ar gael i gefnogi personau i gyflawni eu gweithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni hyn. |
| 12 | Rhaid i ansawdd a lefel cydymffurfiaeth sefydliad â phob safon gweithredu gael eu monitro gan y sefydliad ei hun a/neu drydydd parti ar ei ran. |

**Gweithgareddau perthnasol**

i. Recriwtio, gan gynnwys cyhoeddi disgrifiad swydd, manyleb person, ffurflen gais, a chynnal cyfweliad am swydd
ii. Cyhoeddi deunydd yn ymwneud â gweithgareddau perthnasol A, gan gynnwys contract cyflogaeth a dogfennau atodol
iii. Darparu gwasanaethau adnoddau dynol i A, gan gynnwys cyngor a dogfennau megis ffurflenni
iv. Darparu gwasanaethau corfforaethol i A, gan gynnwys deunyddiau yn ymwneud â materion ariannol A
v. Darparu adnoddau neu ddeunyddiau sy'n cynorthwyo A i gyflawni ei weithgareddau perthnasol
vi. Darparu hyfforddiant i A, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i ddarparu'n fewnol neu gan ddarparwr allanol
vii. Cyhoeddi polisïau, cyfarwyddiadau neu ganllawiau mewnol
viii. Rhannu gwybodaeth ag A ar lafar, gan gynnwys gwybodaeth am faterion corfforaethol
ix. Rhannu gwybodaeth ag A yn ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth am faterion corfforaethol
x. Caffael, datblygu neu ddarparu systemau technoleg gwybodaeth at ddefnydd A, gan gynnwys systemau ar-lein megis mewnrwydi
xi. Cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg A
xii. Cynnal trefniadau wedi'u cynllunio i reoli A, gan gynnwys asesu perfformiad A
xiii. Cynnal trefniadau disgyblu
xiv. Cynnig cyfleoedd i A feithrin ei sgiliau iaith Gymraeg
xv. Derbyn cwynion gan A

### Strategaeth Cydymffurfio

Rhaid i bob sefydliad sydd o dan ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â Safonau gweithredu hefyd gydymffurfio â phob un o'r canlynol o fewn yr amserlen benodedig yn unol ag adran 27(4).

| Rhif | Strategaeth/Amserlen |
|---|---|
| 1 | Rhaid llunio strategaeth a/neu gynllun ar gyfer cydymffurfio â phob un o'r Safonau perthnasol a'i anfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 2 | Rhaid creu a dilyn gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau ar draws y sefydliad a'u hanfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 3 | Rhaid casglu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol gan gynnwys:<br><br>i. nifer a chanran y personau sy'n cyflawni eu gweithgareddau perthnasol yn y Gymraeg a'r Saesneg;<br>ii. nifer a chanran y cynnydd/lleihad yn y niferoedd sy'n cyflawni eu gweithgareddau perthnasol yn y Gymraeg a'r Saesneg ers yr adroddiad diwethaf;<br>iii. unrhyw gwynion gan berson (A) yn cyfeirio at anawsterau wrth gyflawni ei weithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg dros y cyfnod adrodd diwethaf;<br>iv. unrhyw sylwadau perthnasol eraill. Rhaid anfon yr wybodaeth uchod at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 4 | Rhaid casglu gwybodaeth am newidiadau gweithredol a chodi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r cyfleoedd perthnasol sydd ar gael i gefnogi personau i gyflawni eu gweithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys:<br><br>i. y camau penodol ers yr adroddiad diwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r cyfleoedd perthnasol i gefnogi personau i gyflawni eu gweithgareddau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg;<br>ii. unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud neu a ragwelir o ganlyniad i unrhyw gamau codi ymwybyddiaeth ac, os yw'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu;<br>iii. unrhyw sylwadau perthnasol eraill.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 5 | Rhaid anfon yr wybodaeth a gesglir o dan safon 12 uchod yn ymwneud â monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 6 | Rhaid cyhoeddi rhestr o'r holl Safonau perthnasol a strategaeth cydymffurfio'r sefydliad a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'w gweld yn hwylus ac mewn modd agored.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |

# 7
# Safonau Hybu



**Beth yw Safonau Hybu?**
**Diffiniad Adran 31 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
'Yn y Mesur hwn ystyr "safon hybu" yw safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.'

**Pwy sy'n gorfod gweithredu Safonau Hybu?**

i. Gweinidogion Cymru
ii. Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru
iii. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

**Beth yw'r gofynion?**
Rhaid ymddwyn yn gadarnhaol wrth hyrwyddo'r Gymraeg gan fynd ati'n benderfynol i hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach mewn meysydd penodol.

**Y Safonau Hybu**

| Rhif | Safon |
|---|---|
| 1 | Rhaid cymryd camau cadarnhaol i hybu neu i ymuno â gweithgareddau sy'n hybu neu'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach. |
| 2 | Rhaid hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol wrth ymwneud ag eraill, gan ystyried yn benodol sut y gall nodau ac amcanion Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru gael eu hyrwyddo neu eu darparu gan eich sefydliad chi. |
| 3 | Dylid cymryd pob cam rhesymol a phriodol i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a allai gynnwys:<br><br>i. cydweithio â mudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddefnyddio'r Gymraeg;<br>ii. annog cwmnïau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r sefydliad;<br>iii. gweithio â grwpiau targed penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;<br>iv. creu cysylltiad â mudiadau sydd â diddordeb yn y Gymraeg i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol;<br>v. edrych am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;<br>vi. codi ymwybyddiaeth a chynyddu cyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg. |
| 4 | Rhaid monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth y sefydliad a/neu unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran. |

### Gweithgareddau perthnasol

i. Addysg a sgiliau
ii. Trosglwyddiad iaith
iii. Yn ymwneud â phlant a phobl ifanc
iv. Y gymuned
v. Seilwaith ar gyfer y Gymraeg

### Strategaeth Cydymffurfio

Rhaid i bob sefydliad sydd o dan ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â Safonau hybu hefyd gydymffurfio â phob un o'r canlynol o fewn yr amserlen benodedig ynunol ag adran 27(4).



| Rhif | Strategaeth/Amserlen |
|---|---|
| 1 | Rhaid llunio strategaeth a/neu gynllun ar gyfer cydymffurfio â phob un o'r Safonau perthnasol a dylid ei/eu h/anfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 2 | Rhaid creu a dilyn gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau ar draws y sefydliad a dylid eu hanfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |
| 4 | Rhaid casglu gwybodaeth am unrhyw gamau i hybu neu i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan gynnwys:<br><br>i. y camau penodol ers yr adroddiad diwethaf;<br>ii. unrhyw newidiadau a wnaed neu a ragwelir o ganlyniad i'r adroddiad diwethaf ac, os yw hynny'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu gweithredu;<br>iii. unrhyw sylwadau perthnasol eraill.<br><br>bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 5 | Rhaid anfon yr wybodaeth a gesglir o dan safon 4 uchod yn ymwneud â monitro ansawdd a lefel cydymffurfiaeth at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 6 | Rhaid cyhoeddi rhestr o'r holl Safonau perthnasol, a strategaeth cydymffurfio'r sefydliad a sicrhau eu bod ar gael i'w gweld yn hwylus ac mewn modd agored.<br><br>6 mis o ddiwrnod ei osod yn yr hysbysiad cydymffurfio |

# 8
# Safonau Cadw Cofnodion



**Beth yw Safonau Cadw Cofnodion?**
**Diffiniad Adran 32 Mesur y Gymraeg (Cymru ) 2011:**
‘(1) Yn y Mesur hwn ystyr “safon cadw cofnodion” yw safon sy’n ymwneud â chadw —

(a) cofnodion sy’n ymwneud â Safonau penodedig eraill, a
(b) cofnodion sy’n ymwneud —
 (i) â chwynion am gydymffurfedd person â Safonau penodedig eraill, neu
 (ii) â chwynion eraill sy’n ymwneud â’r Gymraeg.

**Pwy sy’n gorfod gweithredu’r Safonau Cadw Cofnodion?**

i. Unrhyw rai sy’n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol neu drwy gytundeb, neu drwy drefniadau eraill neu sy’n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol
ii. Rheoleiddwyr
iii. Darparwyr tai cymdeithasol
iv. Cyfran o’r sector preifat gan gynnwys cwmnïau nwy, dŵr neu drydan; cwmnïau sy’n darparu gwasanaethau post neu swyddfeydd post; cwmnïau telathrebu; bysiau neu wasanaethau rheilffyrdd
v. Darparwyr addysg a hyfforddiant gan gynnwys y rhai sy’n annog, yn galluogi neu’n cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd a’r rhai hynny sy’n dyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol
vi. Unrhyw un sy’n dewis cydymffurfio â Safonau

**Beth yw’r gofynion?**
Disgwylir i bersonau gadw cofnodion yn ymwneud â gweithrediad Safonau penodedig. Bydd disgwyl i bob person sy’n gorfod gweithredu Safonau gadw cofnodion sy’n ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ac unrhyw gwynion cysylltiedig. Bydd disgwyl i bersonau sy’n gorfod gweithredu Safonau polisi, gweithredu a hybu gadw cofnodion mewn perthynas â’r Safonau hynny hefyd.

## Y Safonau Cadw Cofnodion

| Rhif | Safon/Amserlen |
|---|---|
| 1 | Rhaid cadw cofnod o bob mater sydd yn adran Strategaeth Cydymffurfio y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Gweithredu, Safonau Llunio Polisi a/neu Safonau Hybu o'r dyddiad y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â'r Safonau hynny.<br><br>Rhaid anfon copi o'r cofnodion at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Yn ôl yr amserlen yn yr adran Strategaeth Cydymffurfio yn y Safonau perthnasol |
| 2 | Rhaid cadw cofnod manwl o:<br><br>i. nifer a chanran y gweithlu sy'n gymwys i wneud eu gwaith yn y Gymraeg;<br>ii. trefniadau asesu'r angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff a darpariaethau i ymateb i'r angen;<br>iii. darpariaethau cyfieithu, gan gynnwys defnyddio staff o fewn y sefydliad neu ddefnyddio darparwyr allanol.<br><br>Rhaid anfon copi o'r cofnodion at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 3 | Rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â chwynion am gydymffurfiaeth person â Safonau penodedig neu gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan gynnwys cofnod o:<br><br>i. natur y gŵyn;<br>ii. y camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd i ymdrin â'r gŵyn;<br>iii. unrhyw newidiadau i strategaethau neu gynlluniau neu weithdrefnau'r sefydliad a wnaed o ganlyniad i'r gŵyn, er mwyn osgoi cwyn o'r fath yn y dyfodol.<br><br>Rhaid anfon copi o'r cofnodion at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.<br><br>Copi o natur y gŵyn i gael ei ddarparu i'r Comisiynydd o fewn 20 diwrnod i dderbyn y gŵyn. Copi cyflawn o gofnod cwynion i gael ei ddarparu i'r Comisiynydd bob 3 mis ac yn ôl y gofyn |
| 4 | Rhaid i bob cofnod fod yn gyflawn a dylid ei ddiweddaru'n gyson.<br><br>Bob 12 mis ac yn ôl y gofyn |
| 5 | Rhaid i'r sefydliad anfon unrhyw gofnodion at y Comisiynydd yn ôl y gofyn a/neu alluogi'r Comisiynydd i adolygu'r cofnodion |

# Ffurflen ymateb

**1**
**Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn ddigon eglur i ddefnyddwyr wybod beth y gellir ei ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg.

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**2**

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn adlewyrchu profiad defnyddiwr gwasanaeth yng Nghymru.

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau. (Os nad ydych yn cytuno, nodwch pa feysydd eraill sydd angen eu cynnwys yn eich barn chi):

**3**

Mae'r rhestr gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn adlewyrchu holl swyddogaethau:

**a) Sefydliadau'r trydydd sector**

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

**b) Cwmnïau preifat**

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**4**
**Safonau Gweithredu**

Bydd y Safonau hyn yn cynyddu gallu gweithluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**5**
**Safonau Llunio Polisi**

Bydd y Safonau hyn yn sicrhau bydd sefydliadau yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd ar ddatblygiad polisi

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**6**
**Safonau Hybu**

Bydd y Safonau hyn yn gyfle i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**7**
**Safonau Cadw Cofnodion**

Bydd y Safonau hyn yn sicrhau digon o atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder wrth weithredu Safonau.

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Nodwch eich sylwadau:

**8**
**Safonau Ychwanegol**

A ddylid cynnwys unrhyw Safonau eraill yn y 5 maes uchod?

- ◯ Dylid
- ◯ Na ddylid

Nodwch eich sylwadau:

**9**
**Unrhyw sylwadau pellach**

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn?

**Amdanoch chi**

Enw:

Cyfeiriad:

**A ydych yn:**

- ◯ Cynrychioli sefydliad cyhoeddus?

Nodwch enw'r sefydliad:

- ◯ Cynrychioli cwmni preifat?

Nodwch enw'r cwmni:

- ◯ Cynrychioli sefydliad trydydd sector?

Nodwch enw'r sefydliad:

- ◯ Arall?

Nodwch:

◯ **Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg neu mewn adroddiad. Ticiwch y blwch pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn gyfrinachol.**

**Diolch yn fawr iawn am ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym yn gwerthfawrogi'ch cydweithrediad.**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner